



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Arolygon gwirio cyfryngau cymdeithasol: Sefydliadau sy'n gweithredu Cynlluniau laith Gymraeg



Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
2	Methodoleg	2
3	Canfyddiadau	3
4	Tueddiadau	5
5	Casgliad ac argymhellion	6
	Atodiadau	7


1 Cyflwyniad

- 1.1 Eleni, rydym wedi adolygu ein trefniadau ar gyfer monitro a rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'u dyletswyddau iaith, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau'r Cynllun Strategol a'r Deilliannau Rheoleiddio a gyhoeddwyd yn 2024-2025.
- 1.2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, buom yn ystyried pa newidiadau a dulliau amgen oedd eu hangen i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, ac i hyrwyddo cydymffurfiaeth mewn modd mwy rhagweithiol.
- 1.3 Roeddem yn awyddus i ddatblygu dulliau monitro a hyrwyddo a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch cydymffurfiaeth sefydliadau. Penderfynwyd cynllunio arolygon gwirio i'w cynnal yn chwarterol, gyda chanlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r sefydliadau unigol o fewn yr un chwarter.
- 1.4 Un o fanteision allweddol y dull hwn o fonitro yw bod sefydliadau'n cael gwybod am unrhyw faterion cydymffurfiaeth mewn modd amserol drwy gydol y flwyddyn, gan roi cyfle iddynt weithredu atebion priodol yn brydlon.
- 1.5 Mae cyfryngau cymdeithasol wedi'u nodi fel maes blaenoriaeth ar gyfer pob sefydliad eleni. Daw hyn yn sgil y ffaith bod arferion sefydliadau yn y maes hwn wedi esblygu'n sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf, gyda defnydd cynyddol o amrywiaeth o blatfformau.
- 1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolygon gwirio a gynhaliwyd â sefydliadau sydd yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg gan gyflwyno argymhellion i chi eu hystyried i sicrhau gwell cydymffurfiaeth o fewn eich sefydliad chi. Er inni gynnal yr arolwg gyda sampl o'r sefydliadau yn unig, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn ynghyd â'r argymhellion yn berthnasol i'r holl sefydliadau sydd yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg.
- 1.7 Yn ogystal â'r adroddiad hwn, bydd canfyddiadau unigol yn cael eu trafod gyda phob sefydliad oedd yn rhan o'r gwaith arolygu er mwyn cynnig adborth wedi'i deilwra a chefnogi camau gwella penodol.

2 Methodoleg

- 2.1 Arolygwyd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol 15 o sefydliadau oedd yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg oedd wedi eu hadnabod fel blaenoriaeth uchel neu canolig yn ystod Gorffennaf 2025.
- 2.2 Y platfformau a wiriwyd oedd Facebook, X, LinkedIn ac Instagram drwy ddilyn dolenni i'r platfformau hyn oddi ar wefannau'r sefydliadau (lle bo dolenni'n bodoli).
- 2.3 Gwiriwyd 500 o negeseuon yn ystod y cyfnod arolygu, gan asesu:
 - a oedd y neges ar gael yn Gymraeg?
 - a oedd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ar y neges?
 - a oedd hunaniaeth gorfforaethol y sefydliad yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar y platfformau gwahanol?

3 Canfyddiadau



- 3.1 Roedd gan chwe sefydliad a arolygwyd gymalau penodol yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol yn eu cynllun iaith. Nid oedd unrhyw gyfeiriad at gyfryngau cymdeithasol yng nghynlluniau iaith y naw sefydliad arall.
- 3.2 O blith y chwe sefydliad hynny, roedd tri yn cyfeirio at blatfformau penodol e.e. X a Facebook, neu X a LinkedIn.
- 3.3 Oherwydd bod cynnwys ac ymrwymïadau'r cynlluniau iaith yn amrywio rhwng sefydliadau, nid yw data'r arolygon hyn o reidrwydd yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r ymrwymïadau hynny. Yn hytrach, mae'n adlewyrchu profiad y defnyddiwr wrth geisio cyrchu gwasanaethau Cymraeg ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y sefydliadau.
- 3.4 Roedd gan bob un o'r sefydliadau a arolygwyd gyfrifon ar blatfformau X a LinkedIn, gyda 13 ohonynt yn defnyddio Facebook, a dim ond saith yn defnyddio Instagram.
- 3.5 O ran iaith y cyfrifon, gwelwyd fod wyth (16%) yn gyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, 14 (27%) yn gyfrifon dwyieithog a 29 (57%) yn gyfrifon uniaith Saesneg.
- 3.6 O'r 500 o negeseuon a wiriwyd, roedd 172 ohonynt – sef 34.5% – ar gael yn Gymraeg. Dyma'r canrannau fesul cyfrif:

Platform	% y negeseuon ar gael yn Gymraeg
X	53%
Facebook	38%
Instagram	34%
LinkedIn	13%

- 3.7 Roedd 311 o'r negeseuon a wiriwyd (63%) yn uniaith Saesneg.

- 3.8 Dim ond nifer fach iawn o'r holl negeseuon a wiriwyd oedd yn rhannol Gymraeg – sef 17 neges, neu 3.5%. Y prif resymau dros gofnodi'r negeseuon hyn fel rhai rhannol Gymraeg oedd:
- geiriad y fideo yn Gymraeg, ond gweddill y neges yn Saesneg;
 - teitlau neu benawdau yn Saesneg o fewn neges Gymraeg;
 - mwy o destun Saesneg na Chymraeg, neu dolenni'n arwain at wybodaeth uniaith Saesneg;
 - testun ar luniau neu graffeg yn Saesneg, er bod gweddill y testun yn Gymraeg.
- 3.9 Dim ond 150 o'r negeseuon (30%) oedd yn cynnwys hunaniaeth gorfforaethol Gymraeg neu ddwyieithog. Golyga hyn bod 70% o'r negeseuon a arolygwyd yn methu â chydymffurfio â'r ymrwymadau sy'n ymwneud ag hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn peri pryder i'r Comisiynydd, ac mae angen i sefydliadau weithredu ar yr agwedd hon cyn gynted â phosib.

4 Tueddiadau

- 4.1 Mae canfyddiadau arolygon blaenorol y Comisiynydd (rhwng 2021/22 a 2024/25) wedi dangos bod y defnydd o'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol yn gymharol isel. Yn 2021/22, dim ond 30% o'r negeseuon a adolygwyd oedd ar gael yn Gymraeg, a gostyngodd y ganran hon i 20% erbyn 2024/25. Dylid nodi mai dim ond cyfrifon X a Facebook gafodd eu hadolygu yn ystod y gwaith arolygu hyd at 2024/25.
- 4.2 Mae adroddiad diweddaraf y Comisiynydd ar berfformiad sefydliadau, [Grymuso'r Gymraeg drwy lywodraethiant cadarn](#), yn nodi pryder bod dirywiad cyffredinol wedi bod yn nifer y negeseuon cyfryngau cymdeithasol a gyhoeddir yn Gymraeg gan sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith.
- 4.3 Mae'r data'n dangos bod y chwe sefydliad sydd â chymalau penodol yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol yn eu cynllun iaith yn perfformio'n llawer gwell na'r rhan fwyaf o'r sefydliadau eraill a arolygwyd – yn enwedig o ran negeseuon ar X a Facebook. Dim ond dau o'r chwe sefydliad hyn sydd â chyfrif ar Instagram ar hyn o bryd.
- 4.4 Fel y nodwyd eisoes, nid yw cynlluniau iaith naw o'r sefydliadau a arolygwyd yn cyfeirio'n benodol at gyfryngau cymdeithasol. Er hynny, mae'n ymddangos fod rhai o'r sefydliadau hynny'n darparu gwybodaeth yn Gymraeg ar eu cyfrifon, yn enwedig ar Instagram (24 neges) a LinkedIn (19 neges). Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth ar gael yn gyson yn Gymraeg.
- 4.5 Mae'n amlwg bod rhai sefydliadau'n defnyddio gwahanol blatfformau ar gyfer gwahanol ddibenion e.e. rhai sefydliadau yn defnyddio LinkedIn yn benodol i hyrwyddo hysbysebion am swyddi, neu annog pobl i ystyried gyrfa gyda'r sefydliad.
- 4.6 Wrth wirio cynnwys ar draws y platfformau gwahanol, gwelwyd tueddiad i rannu'r un cynnwys neu destun ar fwy nag un platfform. Serch hynny, nid yw'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r sefydliadau wedi ystyried cynnwys Cymraeg ar blatfformau fel Instagram na LinkedIn, er bod deunydd dwyieithog ar gael ar X a Facebook y gellid ei drosglwyddo'n gymharol hawdd. Nid yw'n glir felly pam nad yw'r sefydliadau hyn yn sicrhau bod cynnwys Cymraeg ar gael ar bob un o'r platfformau.
- 4.7 O blith y 15 sefydliad a arolygwyd, Hybu Cig Cymru oedd y sefydliad a berfformiodd orau ar draws y pedwar platfform. Roedd gan y sefydliad ddeunydd Cymraeg ar bob un o'r cyfrifon, hunaniaeth gorfforaethol yn Gymraeg ar bob platfform, a 90% negeseuon ar gael yn Gymraeg yn llawn, gyda 5% yn rhannol Gymraeg. Gwerth nodi yw'r ffaith nad oes gan Hybu Cig Cymru gymalau penodol yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol yn eu cynllun iaith presennol.
- 4.8 Gwelwyd bod yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Gwasanaeth Arian a Phensiynau â'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi perfformio'n dda iawn o ran eu cyfrifon X a Facebook, gyda phob un o'r negeseuon a arolygwyd ar gael yn Gymraeg. Roedd yr un peth yn wir am gyfrif X y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau, lle'r oedd pob neges yn Gymraeg. Yn ogystal, roedd naw o'r deg neges a wiriwyd ar gyfrif X y Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM yn Gymraeg, gyda'r neges arall yn rhannol Gymraeg.

5 Casgliadau ac argymhellion

- 5.1 Mae'r canlyniadau'n gymysg iawn ar draws y gwahanol blatfformau. Mae nifer o sefydliadau'n perfformio'n dda, ond nid ar draws pob platfform. Mae hyn yn arwain at brofiad anghyson i'r cyhoedd sydd am ddefnyddio'r cyfryngau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 5.2 Mae'n ymddangos bod rhai sefydliadau'n defnyddio gwahanol blatfformau ar gyfer dibenion gwahanol ac i gyrraedd cynulleidfaoedd gwahanol. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal ar pob platfform, waeth beth fo'r bwriad wrth gyhoeddi'r cynnwys.
- 5.3 Ar sail canfyddiadau'r arolwg, rydym yn cyflwyno'r argymhellion isod i'r sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg:

Argymhelliad 1: Hunaniaeth gorfforaethol

Dylai sefydliadau gynnal awdit llawn o'u holl gyfrifon cymdeithasol i wirio bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol y sefydliad, gan gynnwys gwirio logos, enwau, handlenni a phroffiliau.

Argymhelliad 2: Trefniadau goruchwyllo

Dylai sefydliadau adolygu eu prosesau hunanreoleiddio i sicrhau triniaeth gyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg ar bob cyfrif. Dylid darparu arweiniad a chanllawiau clir i staff sy'n gyfrifol am bostio cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.

Argymhelliad 3: Hyrwyddo cyfrifon Cymraeg

Dylai sefydliadau gynnwys dolenni clir o'r cyfrifon cyfatebol Saesneg i'r cyfrifon Cymraeg, er mwyn cynyddu gwelededd a mynediad at y cynnwys Cymraeg.

Argymhelliad 4: Cynllunio ar gyfer platfformau newydd

Dylai sefydliadau sicrhau bod darpariaeth Gymraeg yn cael ei chynllunio o'r cychwyn cyntaf wrth sefydlu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol newydd.

Argymhelliad 5: Diwygio cynlluniau iaith

Dylai cynlluniau iaith newydd neu diwygiedig gynnwys adran benodol sy'n cyfeirio at ddefnydd y sefydliad o gyfryngau cymdeithasol wrth gyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru.

Atodiadau

Atodiad A: Data'r arolwg

	Facebook	X	Instagram	LinkedIn	Cyfanswm a chanran
Nifer y sefydliadau sy'n defnyddio'r platfform	14	15	7	15	51
Nifer a % y sefydliadau â chyfrif Cymraeg ar wahân	3 (21%)	5 (33%)	0	0	8 (16%)
Nifer a % y sefydliadau a chyfrif dwyieithog	3 (21%)	3 (20%)	6 (86%)	2 (13%)	14 (27%)
Nifer a % y sefydliadau â chyfrif Saesneg yn unig	8 (58%)	7 (47%)	1 (14%)	13 (87%)	29 (57%)
Nifer y negeseuon a wiriwyd	130	150	70	150	500
% y negeseuon gyda hunaniaeth gorfforaethol Cymraeg neu ddwyieithog	50 (38%)	60 (40%)	20 (29%)	20 (13%)	150 (30%)
Nifer a % y negeseuon oedd ar gael yn Gymraeg	49 (38%)	79 (53%)	24 (34%)	20 (13%)	172 (34%)

Nifer a % y negeseuon oedd yn cydymffurfio yn llawn (y 6 sefydliad oedd gyda cymal cyfryngau cymdeithasol yn eu cynllun iaith)	32/50 (64%)	43/60 (72%)	0/20	1/60 (2%)	76/190 (40%)
Nifer a % y negeseuon oedd yn cydymffurfio yn rhannol	2 (1%)	5 (3%)	7 (10%)	3 (2%)	17 (3%)
Nifer y negeseuon oedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	75 (58%)	74 (49%)	46 (68%)	133 (89%)	328 (66%)

Atodiad B: Sefydliadau oedd yn rhan o'r arolwg

Adran Gwaith a Phensiynau
Asiantaeth Safonau Bwyd
Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
Asiantaeth y Swyddfa Brisio
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Cofrestrfa Tir EF
Comisiwn Elusennau
Cyllid a Thollau EF
Gwasanaeth Arian a Phensiynau
Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF
Gwasanaeth Prawf a Charchardai EF
Hybu Cig Cymru
Swyddfa Cymru
Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus
Tŷ'r Cwmnïau